Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Rebecca Borman**

**Wrecsam**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/10/2023

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Mehefin 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar a phrysur sy'n gwneud dewisiadau hyderus am yr eitemau y maent eisiau chwarae â nhw. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn dda. Mae'r plant yn setlo'n gyflym an yn mwynhau chwarae gyda'i gilydd, gan ddysgu i rannu. Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Maent yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn dda.

Caiff y plant ofal gan warchodwr plant sy'n darparu gofal da ac sy'n ymrwymedig i sicrhau bod y plant yn tyfu ac yn datblygu'n dda. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant drwy amrywiaeth o weithgareddau diddorol. Caiff anghenion unigol eu diwallu'n llwyddiannus, ac mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhyngweithiadau yn effeithiol.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn groesawgar. Mae'r adnoddau sy'n hawdd eu cyrraedd yn rhoi cyfleoedd da i'r plant feithrin amrywiaeth o sgiliau. Mae cynllun y lleoliad yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, ac mae wedi'i drefnu i'w galluogi i archwilio'n rhydd ac i wneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw. Mae gardd yn datblygu diddordeb y plant mewn natur ac mewn tyfu ffrwythau a llysiau.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni ac mae'n rhoi gwybodaeth reolaidd iddynt am ddiwrnod eu plentyn, drwy ap electronig. Mae'r gwarchodwr plant yn cwrdd â gwarchodwyr plant eraill yn yr ardal yn rheolaidd er mwyn cymdeithasu a chael hwyl gyda'r plant. Mae'n mynd â nhw i fannau o ddiddordeb yn lleol a thu hwnt, gan eu helpu i ddarganfod mwy am y byd o'u cwmpas yn llwyddiannus.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn rhoi gwybod i'r gwarchodwr plant beth yr hoffent chwarae ag ef ac yn penderfynu gwneud jig-so gyda'i gilydd. Mae'r plant yn closio at ei gilydd ar y soffa ac yn rhoi blanced am ben ei gilydd er mwyn chwarae eu fersiwn eu hunain o gêm cuddio. Mae'r plant yn sgwrsio'n fodlon â'r gwarchodwr plant ac yn gwneud penderfyniadau wrth chwarae, er enghraifft maent yn penderfynu chwarae yn yr awyr agored ac yn penderfynu defnyddio sbyngau hefyd. Maent yn gofyn am wahanol liwiau paent pan fyddant am newid lliw ac yn gofyn am weips ar gyfer eu dwylo. Mae'r plant yn gyfforddus iawn, ac roeddent yn gwenu'n aml.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn chwarae'n fodlon ac yn mwynhau dewis eu teganau a'u cyfarpar eu hunain, gan glebran yn gyffrous wrth iddynt rannu a chymysgu paent gyda'i gilydd. Mae'r plant yn cael sicrwydd ac yn cael canmoliaeth a llawer o anogaeth. Maent yn setlo'n dda, yn meithrin ymdeimlad o berthyn ac yn dangos bod cysylltiad agos rhyngddynt â'r gwarchodwr plant. Mae'r plant yn mwynhau gofal sy'n gynnes, yn hamddenol ac sy'n parchu eu hanghenion. Maent yn hyderus gan fod y drefn o ddydd i ddydd yn gyfarwydd ac mae hyn yn sicrhau bod y plant yn teimlo'n ddiogel gan eu bod yn gwybod beth fydd yn digwydd nesaf. Er enghraifft, adeg newid cewynnau maent yn gorwedd i lawr yn gyflym ar y mat. Mae'r gwarchodwr plant yn dangos cynhesrwydd mawr at y plant, ac maent yn ddigon parod i fynd ati i gael sicrwydd, neu i eistedd ar ei glin.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r gwarchodwr plant, ac maent yn gofyn am help i wisgo eu dillad glaw er mwyn chwarae yn yr awyr agored. Mae'r plant yn gwrando'n dda ar y gwarchodwr plant ac yn tacluso yn barod ar gyfer amser cinio. Maent yn llawn balchder wrth ddangos beth maent yn ei wneud â'r paent i'r gwarchodwr plant ac maent yn cael eu canmol a'u hannog ganddi, yn aml yn Gymraeg, wrth iddynt rolio concyrs drwy'r paent i wneud traciau. Mae gan y plant gydberthnasau da â'i gilydd ac maent yn mwynhau bod yng nghwmni ei gilydd. Maent yn dechrau rhannu ac roeddent yn fwy na pharod i gyfnewid jig-sos er mwyn i bawb allu rhoi cynnig ar bob un. Maent yn atgoffa ei gilydd o reolau syml heb gael eu hannog i wneud hynny, er enghraifft, i beidio â chwarae ar y giât.

Mae'r plant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu gyda'r teganau a'r cyfarpar sydd ar gael.
Mae ganddynt ddigonedd o ddewis a chyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd. Maent yn hyderus wrth sgwrsio â'r gwarchodwr plant wrth chwarae ac yn dangos balchder wrth ddweud eu hoedran wrthym. Maent yn manteisio i'r eithaf ar yr amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau gan osod eitemau ar ffenestr yr ystafell chwarae. Roedd y plant yn brysur ac roedd diddordeb mawr ganddynt yn yr hyn yr oeddent yn ei wneud yn yr awyr agored megis cymysgu paent gyda'i gilydd a rhannu taflenni paentio.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu sgiliau annibyniaeth ac maent yn ddysgwyr

hyderus.  Gofynnir iddynt eistedd wrth y bwrdd hyd nes y byddant wedi gorffen bwyta. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym eu bod yn mynd i wahanol leoedd yn yr ardal leol yn rheolaidd megis grwpiau i blant ifanc, gan roi amrywiaeth o brofiadau iddynt a chyfleoedd i gymdeithasu. Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain, gyda'r gwarchodwr plant wrth law i gynnig help a chymorth, gan awgrymu'n garedig deganau yr hoffent chwarae â nhw. Maent yn dyfalbarhau'n dda, er enghraifft wrth gario eu hoff deganau i ystafell arall er mwyn iddynt allu parhau i chwarae. Gwelwyd cydberthnasau cadarnhaol, ac mae eu hiaith yn datblygu'n dda drwy gwestiynau a llawer o sgwrsio.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn gwybod sut i gadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Mae wedi cael hyfforddiant fel Cymorth Cyntaf Pediatrig a diogelu, sy'n sicrhau ei bod yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r rhieni yn darparu eu bwyd eu hunain i'r plant; fodd bynnag mae'r gwarchodwr plant yn gweini byrbrydau iach iddynt sy'n cynnwys digon o ffrwythau fel afalau, bananas a llus.  Mae dŵr yfed ar gael yn hwylus er mwyn sicrhau y gall y plant gael diod pan fyddant am wneud hynny. Mae polisïau a gweithdrefnau perthnasol a gafodd eu diweddaru'n ddiweddar ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau rhestr wirio diogelwch a chynhelir asesiadau risg a chânt eu dyddio i nodi a rheoli unrhyw beryglon. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi sylw da i hylendid, gan sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo a bod y byrddau yn cael eu sychu cyn bwyta. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu yn ddiogel.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal ymatebol ac yn llwyddo i gael y tri phlentyn ar ei glin er mwyn rhoi maldod iddynt. Mae'n gwrando ar y plant ac yn dangos parch. Caiff ffiniau ac arferion realistig eu gosod a thrwy ymatebion cadarnhaol mae'r plant yn cael cymorth i ddeall rheolau syml. Mae agwedd gadarnhaol ac esboniadau da gan y gwarchodwr plant am sut mae'r jig-sos yn ffitio gyda'i gilydd yn galluogi'r plant i deimlo'n dda amdanynt eu hunain. Mae hyn yn cynyddu eu hunan-barch ac yn eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r gofal yn hamddenol, dan arweiniad y plant, gyda'r gwarchodwr plant yn eistedd wrth y bwrdd i gael cinio gyda'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes a charedig, gan roi digon o ganmoliaeth yn Gymraeg am gyflawniadau bach fel codi darnau sych o basta sydd wedi disgyn, sy'n gwneud i'r plant wenu.

Mae'r gwarchodwr plant yn wybodus am ddatblygiad y plant ac yn diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus. Mae'n ehangu gwybodaeth y plant yn effeithiol drwy ofyn cwestiynau fel 'Pa liw yw hwn?' Caiff arferion a dewisiadau unigol y plant eu dilyn gyda'r gwarchodwr plant yn defnyddio digonedd o eiriau ac ymadroddion Cymraeg gyda'r plant. Mae'r rhieni yn cael lefel dda o fanylion am ddiwrnod y plentyn drwy ap electronig. Mae'r gwarchodwr plant  yn cynllunio gweithgareddau sy'n ymwneud ag achlysuron arbennig a lleoedd o ddiddordeb ac yn sicrhau bod y plant yn brysur yn ymgymryd â phrofiadau y maent yn eu mwynhau.  Mae'r gwarchodwr plant a'r plant yn mynd allan bob bore ac ar ddau fore mae'r gwarchodwr plant yn llogi ystafell ac yn cwrdd â gwarchodwyr plant eraill. Mae hyn yn darparu cyfleoedd da i

gymdeithasu ac i gael hwyl â'r plant yn ogystal â darparu rhwydwaith cymorth. Mae'r gwarchodwr plant yn canolbwyntio'n dda ar ddiddordebau'r plant, ac yn dilyn eu trefn a'u dewisiadau unigol. Mae'r gwarchodwr plant yn cofnodi cynnydd a datblygiad y plant ar ffurf blodyn er mwyn dangos eu canlyniadau yn y meysydd o ddysgu.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn diwallu anghenion y plant. Mae'r drws yn cael ei gadw dan glo ac mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel a bod yr amgylchedd a'r teganau yn lân, mewn cyflwr da ac yn briodol o ran oedran. Cynhelir asesiadau risg ar gyfer y lleoedd yr ymwelir â nhw yn ogystal ag asesiadau risg ar gyfer y cartref a'r ardd. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau ac yn goruchwylio'r plant yn dda yn ystod eu gweithgareddau.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas ar gyfer y plant. Mae'n darparu digonedd o deganau a chyfarpar mewn ystafell chwarae benodol, er enghraifft soffa fach gyfforddus. Mae hyn yn gwneud i'r plant deimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol. Caiff gweithgareddau eu trefnu a gall y plant gyrraedd y teganau a'r gemau sydd wedi'u storio mewn basgedi o wiail a chotwm yn hawdd. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod hi'n hawdd i'r plant gael gafael ar yr adnoddau ac mae'n sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar i'r plant gan ei fod yn olau ac yn lliwgar ac wedi'i drefnu'n dda, er enghraifft mae cynwysyddion tryloyw yn storio darnau bach rhydd y gall y plant eu gweld yn hawdd a helpu eu hunain iddynt. Mae gardd benodol ar gael i'r plant, sy'n cynnwys adnoddau addas ac ardaloedd gwahanol, gan alluogi y plant iau hyd yn oed i fwynhau chwarae yn yr awyr agored.

Mae ystafell chwarae sy'n cynnwys digon o adnoddau ac ardal awyr agored â gorchudd yn rhoi cyfleoedd da i'r plant ddatblygu amrywiaeth o sgiliau. Mae eitemau bywyd go iawn yn y gegin bren megis sosbenni metel, gobledi, rhidyllau a jygiau yn sicrhau y gall y plant ddilyn eu syniadau a chwarae gan ddefnyddio eu dychymyg. Mae gan y gwarchodwr plant ardal dyfu yn yr ardd er mwyn sicrhau y gall y plant ddysgu am blanhigion a mwynhau bwyta tomatos pan fyddant yn barod i'w bwyta. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau gan gynnwys eitemau plastig ac eitemau naturiol sy'n rhoi'r cyfle i'r plant weithio gyda gwahanol weadau ac arwynebau ac mae riliau pren wedi'u hailgylchu yn cael eu defnyddio fel bwrdd a seddi. Mae'r ystafell wedi'i threfnu mewn ffordd ddeniadol er mwyn i'r plant allu mynd ati i archwilio'n hwylus a gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod enghreifftiau o waith y plant a lluniau ohonynt ar gael ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |
|---|---|

Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben ysgrifenedig, sy'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i'r rhieni am yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar gael i'r rhieni ac maent yn adlewyrchu'r gofal cyfredol sy'n cael ei ddarparu. Cedwir cofnod addas o bresenoldeb y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn aelod o sefydliad cymorth sy'n ddefnyddiol iddi o ran cael y wybodaeth ddiweddaraf sy'n berthnasol i'w busnes gwarchod plant. Mae aelodaeth o Sŵ Caer a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn galluogi'r gwarchodwr plant i fynd â'r plant am ddiwrnodau allan yn aml.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Mae'n myfyrio ar ei gwasanaeth ac yn cwblhau adolygiad. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chryfderau a'r meysydd i'w gwella. Cawson gadarnhad ysgrifenedig bod yr argymhellion o'r arolygiad wedi cael eu cwblhau. Mae hyn yn dangos bod y gwarchodwr plant yn rhagweithiol wrth wella ei gwasanaeth a'i bod yn awyddus i adlewyrchu'r arferion gorau a lefelau da o ofal. Mae'n adnabod ei lleoliad yn dda ac mae wedi datblygu ei gwasanaeth drwy ychwanegu at yr ardal awyr agored er mwyn darparu mannau diffiniedig i'r plant chwarae. Mae gan y gwarchodwr plant reolau cartref syml sy'n galluogi'r plant i weithio gyda'i gilydd ac i chwarae'n ddiogel. Caiff safbwyntiau'r rhieni eu hystyried, a gofynnir am adborth. Mae'r rhieni yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod wedi ymgymryd â'r holl hyfforddiant gorfodol diweddaraf a'i bod yn ymwybodol o'r feddylfryd bresennol, drwy gyrsiau ar-lein sy'n gwella ei gwybodaeth er mwyn iddi allu cyflawni ei rôl yn effeithiol. Er enghraifft, aeth i arddangosfa Dechrau'n Deg hefyd. Mae gan bob aelod perthnasol o'r teulu wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) erbyn hyn.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin partneriaethau effeithiol â'r rhieni. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddiwrnod eu plentyn drwy ap electronig sydd hefyd yn cynnwys lluniau. Mae'r gwarchodwr plant yn ystyriol o anghenion y plant a'u rhieni a chaiff ffurflenni eu cwblhau ar-lein cyn i'r plentyn ddechrau er mwyn i'r gwarchodwr plant allu darparu gofal yn effeithiol. Mae diweddariadau rheolaidd gan y rhieni yn sicrhau bod anghenion newidiol y plant yn parhau i gael eu diwallu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/12/2023